Cyllid & Tollau EM

# Gwarantau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth

**Nodwch enw a chyfeiriad eich cwmni**

Enw'r cwmni

Cyfeiriad

Cod post

**At ddefnydd CThEM yn unig**

Dyddiad anfon *DD MM BBBB*

Cyfeirnod TWE

Cyfeirnod y cynllun ESSU

U /

## Gwarantau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth ac opsiynau – digwyddiadau i'w nodi o dan Adran 421J y Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003

### Y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2014

Mae'r hysbysiad hwn i'ch cynghori ei fod yn ofynnol i chi yn ôl y gyfraith i anfon ffurflen 42 atom yn rhoi gwybodaeth i ni mewn perthynas â digwyddiadau i'w nodi o dan Adran 421J y Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003.

Rhaid i chi wneud yn siŵr bod y ffurflen hon yn ein cyrraedd erbyn 6 Gorffennaf 2014. Os anfonwyd y ffurflen hon atoch ar neu ar ôl 8 Mehefin 2014 mae gennych 30 diwrnod o'r dyddiad anfon, a ddangosir uchod, i'w chwblhau a'i hanfon atom.

Gallwn godi cosbau arnoch os na ddychwelwch y ffurflen dreth ar amser, neu os yw eich ffurflen yn anghyflawn neu'n anghywir.

Rhoddir nodiadau esboniadol i'ch helpu i lenwi'r ffurflen hon. Darllenwch hwy cyn llenwi'r ffurflen hon a llofnodi'r datganiad . Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch sut i lenwi'r ffurflen hon, cysylltwch â'r Uned Cyfranddaliadau a Gwarantau Cyflogeion yn y cyfeiriad gyferbyn neu ffoniwch ni ar y rhif a ddangosir.

Os nad oes digon o le yn unrhyw ran o'r ffurflen hon, rhowch fanylion pellach ar ddalennau atodol. Rhifwch bob dalen a'u hatodi i'r ffurflen wedi'i chwblhau pan anfonwch hi atom.

Dylech anfon y ffurflen wedi'i chwblhau i'r Uned Cyfranddaliadau a Gwarantau Cyflogeion yn y cyfeiriad isod.

Specialist Personal Tax
Employee Shares & Securities Unit
Nottingham Team
1st Floor, FitzRoy House
Castle Meadow Road
NOTTINGHAM
NG2 1BD

Ffôn **0300 123 1079**

## Ynglŷn â'r ffurflen hon

Rhaid i chi roi manylion o unrhyw ddigwyddiadau i'w nodi. Gallwch wneud hyn drwy ddefnyddio'r ffurflen hon. Os byddai'n well gennych, gallwch ddefnyddio ffurflen, taenlen neu lythyr eich hunan ond rhaid iddo/iddi roi'r un manylion a bod yn yr un fformat â'n ffurflen ni.
Am fwy o wybodaeth ynglŷn â digwyddiadau i'w nodi a sut i gwblhau ffurflen 42, ewch i **www.hmrc.gov.uk/shareschemes/form42-guidance-2007.pdf**

### Cynlluniau Cyfranddaliadau Cynlluniau/Opsiwn Cymeradwy

**Peidiwch** â chynnwys manylion opsiynau Cynlluniau Opsiwn Cyfranddaliadau Cwmni, Cynlluniau Opsiwn Cynilo Wrth Ennill a chyfranddaliadau a gaffaelwyd o Gynlluniau Cymell Cyfranddaliadau a gymeradwywyd, a ganiatawyd gan CThEM.

### Cymhellion Rheoli Mentrau (EMI)

**Peidiwch** â chynnwys manylion opsiynau EMI a ganiatawyd hyd at £250,000. Rhaid i chi gynnwys yn adran 1 opsiynau EMI a ganiatawyd sydd dros y terfyn hwn.

### Dim digwyddiadau i'w nodi

Os nad oes digwyddiadau i'w nodi, ewch i dudalen 13, llenwch adrannau 5 a 6 a dychwelwch y ffurflen atom.

### Cwmnïau a ymgorfforwyd yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2014

Pan fo cwmni cyfyngedig yn cael ei gorffori yn y DU yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2014, nid oes angen adroddiad o gaffaeliad cyfranddaliadau'r tanysgrifwyr gwreiddiol (a elwir hefyd yn gyfrannau sefydlwyr) gan y cyfarwyddwyr neu ddarpar gyfarwyddwyr os oes amodau penodol yn cael eu bodloni. Am fwy o wybodaeth ynglŷn ag amodau sydd angen eu bodloni yn ffurflen 42, ewch i **www.hmrc.gov.uk/shareschemes/form42-guidance-2007.pdf**

Dylai'r mwyafrif o gwmnïau sydd newydd ymgorffori yn y DU fodloni'r amodau hyn a byddant yn cael eu rhyddhau o'r angen i lenwi'r ffurflen hon.

Os oes trafodion eraill mewn cyfranddaliadau neu warantau wedi digwydd, yna mae angen eu nodi.

### Digwyddiadau i'w nodi

Os oes digwyddiadau i'w nodi i'w datgelu, bydd y mynegai isod yn eich helpu i nodi pa adrannau o'r ffurflen y dylech eu llenwi ac yn eich cyfeirio at y dudalen briodol.
Bydd dim ond rhaid i chi lenwi'r tudalennau hynny pan fo digwyddiad i'w nodi. Ticiwch y blwch a ddangosir gyferbyn â'r digwyddiadau trethadwy yr ydych yn rhoi manylion ar eu cyfer. Yna cwblhewch a llofnodwch y datganiad ar dudalen 13 a dychwelwch y ffurflen atom.

| Tudalen | Digwyddiadau i'w nodi | |
|---|---|---|
| | **Adran 1 Opsiynau gwarantau (gan gynnwys opsiynau cyfranddaliadau)**<br>Rhaid i chi lenwi'r adran hon os caniatawyd opsiynau i gyflogeion neu os cafodd opsiynau eu harfer gan gyflogeion (gan gynnwys ystyriaeth a dderbyniwyd am roi'r gorau i'r opsiwn) | ☐ |
| 4 | 1a Caniatáu opsiynau gwarantau | ☐ |
| 5 | 1b Caffael gwarantau mewn perthynas â (gan gynnwys arfer) opsiynau gwarantau | ☐ |
| 6 | 1c Aseinio a rhyddhau opsiynau gwarantau | ☐ |
| | **Adran 2 Caffael gwarantau (gan gynnwys cyfranddaliadau)**<br>Rhaid i chi gwblhau'r adran hon os caffaelwyd y gwarantau gan gyflogeion | ☐ |
| 7 | 2a Caffael gwarantau (gan gynnwys cyfranddaliadau) | ☐ |
| 8 | 2b Cyfranddaliadau Cyflogeion sy'n Gyfranddalwyr | ☐ |
| | **Adran 3 Digwyddiadau sy'n digwydd ar ôl caffael gwarantau**<br>Rhaid i chi gwblhau'r adran hon os digwyddodd digwyddiadau trethadwy ar ôl i'r cyflogai gaffael y gwarantau | ☐ |
| 9 | 3a Gwarantau cyfyngedig (gan gynnwys cyfranddaliadau) | ☐ |
| 9 | 3b Amrywiaeth o gyfyngiadau ar gyfer cyfranddaliadau a gaffaelwyd cyn 16 Ebrill 2003 | ☐ |
| 10 | 3c Trosi gwarantau ar neu ar ôl 6 Ebrill 2013 | ☐ |
| 10 | 3d Clirio benthyciadau tybiannol | ☐ |
| 11 | 3e Derbyn buddiannau eraill o warantau | ☐ |
| 11 | 3f Gwaredu gwarantau am fwy na'r pris ar y farchnad | ☐ |
| 12 | 3g Gwelliant artiffisial y gwerth marchnad | ☐ |
| 13 | Gwybodaeth ychwanegol - pan rydych yn gwybod bod unrhyw ran o'r incwm o warantau a nodwyd yn drethadwy ar y sail drosglwyddo, rhowch enw a rhif Yswiriant Gwladol y cyflogai hwnnw sy'n cael ei effeithio | ☐ |

## 1 Gwarantau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth (gan gynnwys cyfranddaliadau) ac opsiynau

Gwarantau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth ac opsiynau gwarantau yw'r rhai hynny sy'n cael eu caffael o ganlyniad i gyflogaeth, neu y'u tybir eu bod o ganlyniad i hynny oherwydd cyflwynwyd y cyfle i'w caffael i gyflogeion gan gyflogwr neu berson sy'n gysylltiedig â'r cyflogwr. Mae gwarantau'n cynnwys:

- cyfranddaliadau mewn unrhyw gorff corfforedig (lle bynnag y cafodd ei gorffori) neu unrhyw gorff anghorfforedig a sefydlwyd o dan gyfraith gwlad neu diriogaeth y tu allan i'r DU
- dyledebion, benthyciadau, bondiau, tystysgrifau adneuon ac offerynnau eraill sy'n creu neu'n cydnabod dyledrwydd (heblaw am gytundebau yswiriant)
- opsiynau a 'futures'

Am ragor o wybodaeth ewch i **www.hmrc.gov.uk/shareschemes/form42-guidance-2007.pdf**

## 2 Gweithredu TWE a CYG

Rhaid gweithredu TWE a CYG ar bob swm trethadwy a ddarperir ar ffurf Asedion sy'n hawdd i'w trosi.

**Asedion sy'n hawdd i'w trosi (RCAs)**

Mae gwarantau (gan gynnwys cyfranddaliadau) yn asedion sy'n hawdd i'w trosi os:

- gallant gael eu gwerthu neu wireddu fel arall ar gyfnewidfa buddsoddiadau cydnabyddedig, megis Cyfnewidfa Stoc Llundain neu Gyfnewidfa Stoc Efrog Newydd
- oes trefniadau masnachu wedi'u gosod ar gyfer y gwarantau ar yr adeg y darperir yr incwm trethadwy, neu
- mae trefniadau masnachu yn debygol o ddod i fodolaeth yn unol â threfniadau neu ddealltwriaeth sydd yn eu lle ar yr adeg pan ddarperir yr incwm trethadwy.

Ym mhob achos arall, tybir bod y gwarantau yn Asedion sy'n hawdd i'w trosi a'u bod yn agored i TWE a CYG os nad yw'r gwarantau yn gyfranddaliadau y mae gan y cwmni hawl i ddidyniad Treth Gorfforaeth ar ei gyfer o ganlyniad i Ran 12 y Ddeddf Treth Gorfforaeth 2009.

**Cytundeb CYG** Pan fo cyflogai mewn cytundeb gyda'i gyflogwr i fodloni rhai neu'r holl CYG eilaidd sy'n ddyledus, yna dylid nodi'r swm a dalwyd gan y cyflogai yn y golofn â'r pennawd Cytundeb CYG.

**Dewis CYG** Pan fo'r cyflogai a'i gyflogwr wedi dewis ar y cyd y bydd y cyflogai'n bodloni ychydig, neu bob un, o unrhyw CYG eilaidd sy'n ddyledus, yna dylai'r swm a dalwyd gan y cyflogai gael ei nodi yn y golofn â'r teitl dewis CYG.

## 3 Cyflogeion nad ydynt yn breswyl yn y DU

- Peidiwch â llenwi adran 1 nac adran 2 os nad oedd y cyflogai yn breswyl ar ddyddiad caniatáu'r opsiynau neu ddyfarnu'r gwarantau, ac nid oedd y grant na'r dyfarniad ar gyfer cyflogaeth arfaethedig neu gyflogaeth flaenorol
- Peidiwch â llenwi adrannau 3a, 3b, 3c, 3e a 3f os nad oedd y cyflogai'n breswyl (neu ar gyfer dyfarniadau cyn 6 Ebrill 2008, nad oedd fel arfer yn breswyl) ar ddyddiad dyfarniad y gwarantau, ac nid oedd y dyfarniad ar gyfer cyflogaeth gan gynnwys cyflogaeth yn y dyfodol neu cyn cyflogaeth pan oedd y cyflogai'n breswyl.

## 4 Sail drosglwyddo o 6 Ebrill 2008

Gall y sail drosglwyddo fod yn gymwys pan fo unigolyn sy'n caffael gwarantau ar neu ar ôl 6 Ebrill 2008 (heblaw'r rhai hynny a gaffaelwyd yn unol ag opsiwn gwarantau a ganiatawyd cyn y dyddiad hwnnw) yn breswyl ond nid yw ei ddomisil yn y DU. Pan fo'r cyflogai yn gymwys i gael ei drethu ar y sail drosglwyddo mewn perthynas â'r gyflogaeth, os caiff yr amodau gofynnol eu bodloni, yna mae'n bosib dyrannu'r incwm sy'n deillio o'r gwarantau. Bydd rheolau'r sail drosglwyddo yn nodi unrhyw incwm o warantau tramor sy'n agored i dreth pan gaiff ei drosglwyddo i'r DU. Pan rydych yn gwybod bod unrhyw ran o'r incwm rydych yn ei nodi yn drethadwy ar y sail hon, dylech restru enw a rhif Yswiriant Gwladol y cyflogai yn yr Wybodaeth ychwanegol (tudalen 13).

## 5 Addasiad artiffisial o werth marchnad sy'n deillio o weithrediadau nad ydynt yn fasnachol

Mae adrannau 2 a 3g yn gymwys ar gyfer cynnydd a gostyngiadau artiffisial yng ngwerth marchnad gwarantau sy'n deillio o weithrediadau nad ydynt yn fasnachol. Mae gweithrediadau nad ydynt yn fasnachol yn cynnwys unrhyw beth a wneir:

- heblaw at ddiben masnachol gwirioneddol
- fel rhan o gynllun neu drefniant sydd wedi'i gynllunio i osgoi treth neu CYG
- rhwng cwmnïau o fewn grŵp ar delerau heblaw am yr hyn a fyddai'n ddisgwyliedig gan bersonau sy'n gweithredu ar hyd braich.

## 6 Gwerth marchnad (lle bo angen)

Y gwerth marchnad sydd i'w ddangos yw'r gwerth gorau sydd ar gael ar adeg y trafodyn penodol. Pan fo'r gwerth a nodwch ar y ffurflen hon yn wahanol i'r hyn y gweithredwyd TWE a CYG arno, dylech ychwanegu nodyn i'r ffurflen hon gan egluro'r gwahaniaeth. Os, ar ôl cyflwyno'r ffurflen hon, rydych yn pennu y byddai gwerth gwahanol yn fwy priodol, yna dylech ddefnyddio'r gwerth diwygiedig hwnnw i gyfrifo eich Treth Gorfforaeth a dylai cyflogeion ei ddefnyddio yn eu Ffurflenni Treth Hunanasesiad. Does dim angen anfon ffurflen 42 diwygiedig. Os y pris a nodwyd ar y ffurflen hon yw'r un gorau ar adeg y trafodyn, yna ni fyddwn yn ystyried y ffurflen i fod yn anghywir os cytunir ar bris gwahanol wedi hynny.

## 7 Y gwerth marchnad i'w ddefnyddio wrth gyfrifo 'swm trethadwy' (adran 2a)

- ar gyfer gwarant Math A - y gwerth marchnad (gweler y nodyn uchod)
- ar gyfer gwarantau Mathau B, C a D (pan fo dewis wedi ei wneud) - gwerth y farchnad gan anwybyddu gwerth unrhyw gyfyngiadau sydd wedi'u diystyru
- ar gyfer gwarantau Mathau C a D (pan **nad oes** dewis wedi ei wneud) gwerth y farchnad gan gymryd i ystyriaeth gwerth unrhyw gyfyngiadau (y gwerth marchnad gwirioneddol neu gyfyngedig)
- ar gyfer gwarant Math E - gwerth y farchnad gan anwybyddu gwerth yr hawl i drosi
- ar gyfer gwarant Math F - gwerth y farchnad gan anwybyddu effaith y gostyngiad artiffisial.

## 8 Gwarantau cyfyngedig

Mae gwarantau (neu fudd mewn gwarantau) yn warantau cyfyngedig os yw eu gwerth marchnad yn llai na fyddai fel arall oherwydd:

- mae yna gyfyngiad ar yr hawliau sy'n gysylltiedig â'r gwarantau, gan gynnwys cyfyngiadau ar yr hawliau i gadw neu waredu'r gwarantau
- mae yna ddarpariaeth y gall anfantais godi oddi tani yn sgil arfer hawliau sy'n gysylltiedig â'r gwarantau, gan gynnwys anfanteision sy'n codi o ganlyniad i gadw neu waredu'r gwarantau
- bydd trosglwyddiad, rifersiwn neu fforffediad o'r gwarantau os bydd amgylchiadau penodol yn codi neu ddim yn codi.

Nid yw'r gwarantau wedi'u cyfyngu oherwydd darpariaeth bod yn rhaid iddynt gael eu gwerthu neu eu trosglwyddo os bydd cyflogaeth yn dod i ben o ganlyniad i gamymddwyn.

# Adran 1 Opsiynau gwarantau (gan gynnwys opsiynau cyfranddaliadau)

**Cwblhewch un rhes am bob opsiwn a ganiateir.**

## 1a Caniatáu opsiynau gwarantau

Rhaid i chi lenwi'r adran hon os caniatawyd gwarantau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yn ystod y flwyddyn dreth a ddaeth i ben 5 Ebrill 2014. Dylai unrhyw opsiynau EMI a ganiatawyd sydd dros £250,000 yn ystod y flwyddyn dreth a ddaeth i ben 5 Ebrill 2014 hefyd gael eu dangos yn yr adran hon.

**Cyflogeion nad ydynt yn breswyl**

Peidiwch â chynnwys o fewn yr adran hon grantiau i gyflogeion nad oeddent yn breswyl ar ddyddiad y grant a'r cyflogeion hynny nad oes ganddynt unrhyw ddyletswyddau yn y DU ac sy'n annhebygol o ddychwelyd i'r DU.

| | 1a.01 Dyddiad caniatáu | 1a.02 Disgrifiad y gwarantau | 1a.03 Cyfanswm y gwarantau y caniatawyd opsiynau ar eu cyfer | 1a.04 Pris caffael ar gyfer bob gwarant | 1a.05 Nifer y cyflogeion y caniatawyd opsiynau iddynt |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | | | | | |
| 2 | | | | | |
| 3 | | | | | |
| 4 | | | | | |
| 5 | | | | | |
| 6 | | | | | |

## Adran 1b Caffael gwarantau mewn perthynas â (gan gynnwys arfer) opsiynau gwarantau

Rhaid i chi lenwi'r adran hon pan gafodd gwarantau, gan gynnwys cyfranddaliadau (gyda neu heb gyfyngiadau), eu caffael mewn perthynas ag opsiwn gwarantau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yn ystod y flwyddyn dreth a ddaeth i ben 5 Ebrill 2014. Nid oes angen i chi lenwi adran 2a yn ychwanegol i'r adran hon ar gyfer cyfranddaliadau a gaffaelwyd drwy arfer opsiwn.

### Colofn 1b.06 Cyflogeion nad ydynt yn breswyl

Os nad oedd cyflogai yn breswyl nac yn breswyl fel arfer pan ganiatawyd yr opsiwn cyn 6 Ebrill 2008, neu os nad oedd yn breswyl pan ganiatawyd yr opsiwn ar ôl y dyddiad hwnnw a bod y caniatâd mewn perthynas â dyletswyddau yn y DU, nodwch 'Iawn' yma. Gweler adran 3d ar gyfer rhoi manylion clirio'r benthyciadau tybiannol.

### Colofn 1b.07 Dyddiad y caffaelwyd y gwarantau

Dyma'r dyddiad y bydd cyflogai neu berson sy'n gysylltiedig â'r cyflogai yn caffael buddiant manteisiol yn y gwarantau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn. Yn y mwyafrif o achosion, y dyddiad arfer fydd hwn yn hytrach na'r dyddiad y bydd y gwarantau'n cael eu trosglwyddo neu y caiff tystysgrif o berchenogaeth ei hanfon.

### Colofn 1b.08 Dewisiadau

Os **na** wnaed dewis i ddiystyru cyfyngiadau, gadewch y golofn hon yn wag.
Nodwch '1' os gwnaed dewis i ddiystyru'r holl gyfyngiadau. Nodwch '2' os gwnaed dewis gan adael rhai cyfyngiadau dros ben.

### Colofn 1b.10 Gwerth marchnad (gweler nodyn 6 ar dudalen 3)

- Os nad oes gan y gwarantau unrhyw gyfyngiadau, nodwch y gwerth marchnad yma
- Pan nad oes dewis wedi'i wneud ac mae gan y gwarantau gyfyngiadau (gan gynnwys cyfyngiadau personol), nodwch y gwerth marchnad cyfyngedig
- Os yw '1' yng ngholofn 1b.08, nodwch werth anghyfyngedig y farchnad
- Os yw '2' yng ngholofn 1b.08, nodwch werth marchnad y gwarantau gan gymryd i ystyriaeth y cyfyngiadau sydd yn dal yn gysylltiedig i'r gwarantau
- Os yw gwerth marchnad y gwarantau hyn wedi cael ei ostwng yn artiffisial (gweler nodyn 5 ar dudalen 3) gan fwy na 10% mewn cyfnod o 7 mlynedd gan ddod i ben ar ddyddiad y caffaeliad, cwblhewch yr adran hon gan nodi y gwerth marchnad sydd wedi'i ostwng a hefyd cwblhewch adran 2a (gwarant Math F, colofn 2a.08).

### Colofn 1b.11 Symiau y gellir ei didynnu

Cyfanswm y gydnabyddiaeth a dalwyd ar gyfer caniatáu'r opsiwn a chaffael y gwarantau (gan gynnwys y pris arfer) ynghyd â'r treuliau a dalwyd mewn perthynas â chaffael y gwarantau. Peidiwch â chynnwys unrhyw dreuliau mewn perthynas â gwerthiant neu warediad y gwarantau.

### Colofn 1b.12

Bydd treth yn ddyledus ar gyfer y caffaeliad oni bai nad oedd y cyflogai yn breswyl ar y dyddiad caniatáu (gweler nodyn colofn 1b.06). Dylid rhoi TWE a CYG ar waith os yw'r gwarantau a gaffaelwyd yn Asedion sy'n hawdd i'w trosi ar adeg y caffael (gweler nodyn 2 ar dudalen 3). Nodwch 'Ydy' os yw TWE wedi cael ei roi ar waith, nodwch 'Nac ydy' os **nad** yw TWE wedi cael ei roi ar waith. Os **nad oes** treth yn ddyledus yna gadewch y golofn hon yn wag.

### Colofnau 1b.13 i 1b.16

Dim ond pan fo dewis neu gytundeb CYG wedi'i drefnu ar gyfer y cyflogai i fodloni ychydig neu holl rwymedigaethau CYG y cyflogwr (gweler nodyn 2 ar dudalen 3) y mae angen cofnod yn y colofnau hyn.

| 1b.01 | 1b.02 | 1b.03 | 1b.04 | 1b.05 | 1b.06 | 1b.07 | 1b.08 | 1b.09 | 1b.10 | 1b.11 | 1b.12 | 1b.13 | 1b.14 | 1b.15 | 1b.16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Enw'r cyflogai | Rhif Yswiriant Gwladol | Cyflogwr | Cyfeirnod TWE | Disgrifiad y gwarantau | Nodwch Iawn os nad yn breswyl pan yn caniatáu (gweler y nodyn uchod). Os Na, gadewch yn wag | Dyddiad y caffaelwyd y gwarantau (gweler y nodyn uchod) | Dewisiad au (gweler y nodyn uchod) | Nifer y gwarantau a gaffaelwyd | Cyfanswm gwerth y farchnad y gwarantau a gaffaelwyd (gweler y nodyn uchod) | Symiau y gellir eu didynnu (gan gynnwys Pris Arfer) (gweler y nodyn uchod) | Os oes treth yn codi, a yw TWE/CYG wedi ei roi ar waith? (Ydy/Nac ydy)? (gweler y nodyn uchod) | Dewis CYG (swm a dalwyd) | Cytundeb CYG (swm a dalwyd) | Dyddiad y talwyd CYG gan y cyflogai | Dyddiad y talwyd CYG i CThEM |
| | | | | | | | | | | | | | | | |

## Adran 1c Aseinio a rhyddhau opsiynau gwarantau

Rhaid i chi lenwi'r adran hon os bu digwyddiad trethadwy yn ystod y flwyddyn dreth a ddaeth i ben 5 Ebrill 2014.

Digwyddiadau trethadwy yw:

- aseiniad neu ryddhau'r opsiynau gwarant am gydnabyddiaeth (oni bai bod y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd yn opsiwn gwarantau arall)
- derbyn buddiant mewn arian, neu mewn gwerth ariannol, mewn perthynas â'r opsiwn gwarantau (heblaw am gaffaeliad y gwarantau a ddangosir yn adran 1b)

**Peidiwch** â llenwi'r adran hon os yw'r opsiynau yn dod i ben am swm o ddim cydnabyddiaeth.

### Colofn 1c.08

Os yw'r gydnabyddiaeth a dderbynnir ar ffurf gwarantau, y mae eu gwerth marchnad wedi'i ostwng yn artiffisial (gweler nodyn 5 ar dudalen 3) gan fwy na 10% yn y cyfnod 7 mlynedd o hyd a ddaeth i ben ar y dyddiad y derbyniwyd y gydnabyddiaeth, nodwch y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan anwybyddu effaith y gostyngiad artiffisial.

### Colofn 1c.09

Codir treth pan gynhelir digwyddiad trethadwy (gweler y nodyn uchod) Nodwch 'Ydy' os yw TWE wedi cael ei roi ar waith, nodwch 'Nac ydy' os **nad** yw TWE wedi cael ei roi ar waith.

### Colofnau 1c.10 i 1c.13

Dim ond pan fo dewis neu gytundeb CYG wedi'i drefnu ar gyfer y cyflogai i fodloni ychydig neu holl rwymedigaethau CYG y cyflogwr (gweler nodyn 2 ar dudalen 3) y mae angen cofnod yn y colofnau hyn.

| 1c.01 Enw'r cyflogai | 1c.02 Rhif Yswiriant Gwladol | 1c.03 Cyflogwr | 1c.04 Cyfeirnod TWE | 1c.05 Disgrifiad y gwarantau | 1c.06 Dyddiad y digwyddiad trethadwy | 1c.07 Nifer y gwarantau a effeithiwyd | 1c.08 Cyfanswm y cydnabyddiaeth neu gwerth yr arian (gweler y nodyn uchod) | 1c.09 Os oes treth yn codi, a yw TWE/ CYG wedi ei roi ar waith (Ydy/Nac ydy)? (gweler y nodyn uchod) | 1c.10 Dewis CYG (swm a dalwyd) | 1c.11 Cytundeb CYG (swm a dalwyd) | 1c.12 Dyddiad y talwyd CYG gan y cyflogai | 1c.13 Dyddiad y talwyd CYG i CThEM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | | |

# Adran 2 Caffael gwarantau (gan gynnwys cyfranddaliadau)

## Adran 2 Caffael gwarantau (gan gynnwys cyfranddaliadau)

**Rhaid i chi lenwi'r adran hon os caffaelwyd gwarantau yn ystod y flwyddyn dreth a ddaeth i ben 5 Ebrill 2014. Nid oes rhaid i chi lenwi'r adran hon ar gyfer unrhyw warantau sydd eisoes wedi'u nodi yn adran 1b oni bai bod gan y gwarantau werth marchnad sydd wedi'i ostwng yn artiffisial.**

**Colofn 2.08 Math o warant. Yn y golofn hon mae'n rhaid i chi nodi un o'r llythrennau canlynol, A – G, sy'n disgrifio'r math o warant a gaffaelwyd. Dylai opsiynau sy'n rhan o gynllun neu drefniant i osgoi treth a/neu CYG cael eu nodi fel Math F a dylid nodi 'y' yng ngholofn 2.09. Ar gyfer gwarantau cyfyngedig gweler hefyd nodyn 8 ar dudalen 3.**

**A** Gwarantau heb gyfyngiad (anwybyddwch golofnau 2a.09 a 2a.10).
**B** Gwarantau cyfyngedig **gyda** darpariaeth fforffedu sy'n para 5 mlynedd neu **lai** (diystyrwch golofn 2a.09).
**C** Gwarantau cyfyngedig **gyda** darpariaeth fforffedu sy'n para **mwy** na 5 mlynedd (diystyrwch golofn 2a.09).
**D** Gwarantau cyfyngedig **heb** ddarpariaeth fforffedu (diystyrwch golofn 2a.09).
**E** Gwarantau i'w trosi (diystyrwch golofnau 2a.09 a 2a.10).
**F** Gwarantau gyda gwerth marchnad wedi'i ostwng yn artiffisial (gweler nodyn 5 ar dudalen 3 a diystyrwch golofn 2a.10).
**G** Cwmni Deillio Sefydliad Ymchwil (cwblhewch golofnau 2a.01 i 2a.08 a 2a.11).

**Colofn 2.09 Gostyngiad artiffisial o werth y farchnad (gweler nodyn 5 ar dudalen 3)**
**Ar gyfer gwarant Math F mae'n rhaid i chi nodi:**
**x** i nodi o ganlyniad i drafodyn nad yw'n fasnachol
**y** i nodi o ganlyniad i gynllun neu drefniant sydd wedi'i gynllunio i osgoi treth neu
**z** i nodi o ganlyniad i drafodyn rhwng cwmnïau ar drafodyn nad yw ar sail hyd braich.

Mae hyn hefyd yn gymwys ar gyfer cwblhau 3a.10, 3c.10, 3e.11 a 3f.10, lle'n briodol.

**Colofn 2a.10 Dewisiadau**
Effaith dewis yw anwybyddu rhai neu'r holl gyfyngiadau wrth bennu gwerth y farchnad.

**Ar gyfer Mathau o warant B, C a D, os y bu dewis i anwybyddu cyfyngiadau, rhaid i chi nodi:**
**1** os gwnaed dewis i ddiystyru pob cyfyngiad
**2** os gwnaed dewis gan adael rhai cyfyngiadau ar ôl
**3** os yn achos gwarant gyfyngedig sydd â chyfyngiad fforffedu rydych wedi dewis gyda'r cyflogai bod treth yn codi ar gaffaeliad.

**Colofn 2a.11 Swm a dalwyd a cholofn 2a.12**
**1** Os yw'r **pris a dalwyd** ar gyfer y gwarantau yn **llai** na gwerth y farchnad (gweler nodiadau 6 a 7 ar dudalen 3) yna bydd tâl Treth Incwm yn codi ar gaffaeliad y gwarantau.
Wrth gyfrif unrhyw swm sy'n drethadwy dylech gymryd i ystyriaeth unrhyw ddewisiadau a wneir a/neu ostyngiadau artiffisial yn y gwerth marchnad. Dylid rhoi TWE a CYG ar waith os yw'r gwarantau yn Asedion sy'n hawdd i'w trosi ar adeg y caffael (gweler nodyn 2 ar dudalen 3).
Yng ngholofn 2a.11 nodwch gyfanswm y pris a dalwyd neu sero os talwyd dim ac yng ngholofn 2a.12 nodwch **IAWN** neu **NA** er mwyn dweud a weithredwyd TWE/CYG.

**2** Os yw'r pris a dalwyd ar gyfer y gwarantau o leiaf yn gyfwerth i'r gwerth marchnad, yna nid oes angen cofnod yng ngholofn 2a.11 neu golofn 2a.12.

**3** Os yw'r gwarantau yn warantau cyfyngedig sydd â chyfyngiad fforffedu sy'n para am 5 mlynedd neu lai **(math B)** ac **nid** oes dewis, maent wedi eu heithrio rhag treth tan y codir y ddarpariaeth fforffedu. Nodwch gyfanswm y pris a dalwyd neu sero os talwyd dim yng ngholofn 2a.11 ac nid oes angen cofnod yng ngholofn 2a.12.

| 2a.01 | 2a.02 | 2a.03 | 2a.04 | 2a.05 | 2a.06 | 2a.07 | 2a.08 | 2a.09 | 2a.10 | 2a.11 | 2a.12 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Enw'r cyflogai | Rhif Yswiriant Gwladol | Cyflogwr | Cyfeirnod TWE | Disgrifiad y gwarantau | Dyddiad y caffaelwyd y gwarantau | Nifer o warantau | Math o warant (gweler y nodyn uchod) | Natur y gostyngiad artiffisial (gweler y nodyn uchod) | Dewisiadau (gweler y nodyn uchod) | Swm a dalwyd (gweler y nodyn uchod) | Os oes treth yn codi, a yw TWE/ CYG wedi ei roi ar waith (Ydy/Nac ydy)? (gweler y nodyn uchod) |
| | | | | | | | | | | | |

## Adran 2b  Cyfranddaliadau cyflogeion sy'n gyfranddalwyr

Rhaid i chi lenwi'r adran hon os yw cyflogai wedi caffael gwarantau o dan amodau Cytundeb Cyflogai sy'n Gyfranddaliwr yn ystod y cyfnod 1 Medi 2013 (pan ddaeth Statws Cyflogai sy'n Gyfranddaliwr i rym) a 5 Ebrill 2014.

Am wybodaeth ynghylch 'Statws Cyflogai sy'n Gyfranddaliwr' ewch i **www.gov.uk/employee-shareholders**

### Colofn 2b.08  AMV (Gwerth marchnad gwirionneddol)

AMV yw gwerth marchnad cyfranddaliad ar ôl cymryd i ystyriaeth unrhyw gyfyngiadau, a osodwyd naill ai yn erthyglau'r cwmni neu unrhyw ddogfennaeth arall, neu a osodwyd gan unrhyw drefniant arall. Un o'r amodau ar gyfer y 'Statws Cyflogai sy'n Gyfranddaliwr' yw rhaid bod gwerth y cyfranddaliadau ar adeg y caffaeliad yn £2,000 o leiaf. Os oedd gwerth y cyfranddaliadau a gaffaelwyd yn llai na £2,000, nid yw'r cyflogai yn 'Gyflogai sy'n Gyfranddaliwr'.

### Colofn 2b.09  UMV (Gwerth marchnad heb gyfyngiad)

UMV yw gwerth marchnad cyfranddaliad, yn anwybyddu unrhyw gyfyngiadau.

### Colofn 2b.10  TWE a CYG

Dylid rhoi TWE a CYG ar waith os yw'r gwarantau a gaffaelwyd yn Asedion sy'n hawdd i'w trosi ar adeg y caffael (gweler nodyn 2 ar dudalen 3) ac yn werth mwy na £2,000. Nodwch 'Ydy' os yw TWE wedi cael ei roi ar waith, nodwch 'Nac ydy' os **nad** yw TWE wedi cael ei roi ar waith. Os **nad** oes treth yn ddyledus (er enghraifft, os yw gwerth marchnad y cyfranddaliadau a gaffaelwyd yn £2,000) yna gadewch y golofn hon yn wag.

Am wybodaeth ynghylch gwerth cyfranddaliadau at ddibenion 'Cyflogai sy'n Gyfranddaliwr', ewch i **www.hmrc.gov.uk/shareschemes/shares-valuation/sav.htm**

| 2b.01 Enw'r cyflogai | 2b.02 Rhif Yswiriant Gwladol | 2b.03 Cyflogwr | 2b.04 Cyfeirnod TWE | 2b.05 Dosbarth y cyfranddaliadau a gaffaelwyd | 2b.06 Nifer o gyfranddaliadau | 2b.07 Dyddiad caffael | 2b.08 Cyfanswm AMV ar y dyddiad yn 2b.07 | 2b.09 Cyfanswm UMV ar y dyddiad yn 2b.07 | 2b.10 Os yw'r cyfranddaliadau yn asedion sy'n hawdd i'w trosi (RCA), a oes TWE/CYG wedi'i weithredu (Oes/Nac oes -gweler y nodyn uchod)? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | |

# Adran 3 Digwyddiadau sy'n digwydd ar ôl caffael gwarantau

**Mae'r adran hon yn rhoi manylion o ddigwyddiadau trethadwy sy'n digwydd ar ôl i warantau cael eu caffael ac mae'n ychwanegol i unrhyw dreth a delir pan gaffaelwyd y gwarantau.**

## 3a Gwarantau cyfyngedig (gan gynnwys cyfranddaliadau)

Rhaid i chi lenwi'r adran hon os oes digwyddiad trethadwy'n codi yn ystod y flwyddyn dreth a ddaeth i ben 5 Ebrill 2014. Mae gwarantau yn warantau wedi'u cyfyngu os yw eu gwerth marchnad yn llai na'r hyn a ddylai fod fel arall o ganlyniad i gyfyngiadau penodol sy'n ymwneud â throsglwyddo, rifersiwn neu fforffedu mewn perthynas â'r gwarantau (gweler nodyn 8 ar dudalen 3).

Mae **digwyddiadau trethadwy** yn digwydd os:

- mae'r gwarantau yn peidio â bod yn destun fforffedu (amodol)
- oes unrhyw gyfyngiad sy'n gysylltiedig â'r gwarantau'n cael ei ddileu neu ei amrywio drwy unrhyw ddull, gan gynnwys treigl amser
- gwerthir y gwarantau i berson nad yw'n gysylltiedig tra eu bod yn dal i fod yn gyfyngedig.

Peidiwch â chwblhau'r adran hon os yw'r eithriadau a restrir yn Adran 429 ITEPA 2003 yn gymwys, neu os rhoddwyd ar waith dewis o dan Adran 431(1) ITEPA 2003 i anwybyddu'r holl gyfyngiadau.

### Colofn 3a.09 Swm sy'n daladwy

**Cyfranddaliadau a gaffaelwyd ar ôl 15 Ebrill 2003**

Cyfrifir y swm trethadwy drwy ddefnyddio fformiwla. Mae cyfrifiannell electronig i'ch helpu i bennu'r swm hwn ar gael o'r cyfeiriad a ddangosir ar flaen y ffurflen hon.

Mae taflen waith ar bapur hefyd ar gael o'r un man cyswllt neu o **www.hmrc.gov.uk/shareschemes**
Os yw'r cyfranddaliadau'n rhai y gellir eu trosi, anwybyddwch yr hawl i drosi wrth gyrraedd gwerth y farchnad.

**Buddiannau amodol mewn cyfranddaliadau a gaffaelwyd cyn 16 Ebrill 2003**

Y swm trethadwy yw cyfanswm y gwerth marchnad llai unrhyw swm y gellir ei ddidynnu. Y swm didynadwy yw:

- taliadau a wnaed i gaffael y cyfranddaliadau
- symiau sy'n agored i Dreth Incwm ar gyfer caffael y cyfranddaliadau

### Colofn 3a.11

Codir treth pan gynhelir digwyddiad trethadwy (gweler y nodyn uchod). Nodwch 'Ydy' os yw TWE wedi cael ei roi ar waith, nodwch 'Nac ydy' os **nad** yw TWE wedi cael ei roi ar waith.

### Colofnau 3a.12 i 3a.15

Dim ond pan fo dewis neu gytundeb CYG wedi'i drefnu ar gyfer y cyflogai i fodloni ychydig neu holl rwymedigaethau CYG y cyflogwr (gweler nodyn 2 ar dudalen 3) y mae angen cofnod yn y colofnau hyn.

| 3a.01 | 3a.02 | 3a.03 | 3a.04 | 3a.05 | 3a.06 | 3a.07 | 3a.08 | 3a.09 | 3a.10 | 3a.11 | 3a.12 | 3a.13 | 3a.14 | 3a.15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Enw'r cyflogai | Rhif Yswiriant Gwladol | Cyflogwr | Cyfeirnod TWE | Disgrifiad y gwarantau | Dyddiad y caffaelwyd y gwarantau'n wreiddiol | Nifer o warantau | Dyddiad y digwyddiad trethadwy | Cyfanswm trethadwy | Natur y gostyngiad artiffisial (gweler y nodyn ar gyfer 2a.09 ar dudalen 7) | A yw TWE/CYG wedi cael ei roi ar waith? (Ydy/Nac ydy)? | Dewis CYG (swm a dalwyd) | Cytundeb CYG (swm a dalwyd) | Dyddiad y talwyd CYG gan y cyflogai | Dyddiad y talwyd CYG i CThEM |
| | | | | | | | | | | | | | | |

## 3b Amrywiaeth o gyfyngiadau ar gyfer cyfranddaliadau a gaffaelwyd cyn 16 Ebrill 2003

Rhaid i chi lenwi'r adran hon i roi manylion o ddigwyddiadau trethadwy yn y flwyddyn dreth a ddaeth i ben 5 Ebrill 2014 os cynyddir gwerth y cyfranddaliadau a gaffaelwyd cyn 16 Ebrill 2003 gan addasiad i'r hawliau neu unrhyw gyfyngiadau sy'n gysylltiedig iddynt hwy neu i gyfranddaliadau eraill yn y cwmni.

Peidiwch â chwblhau'r adran hon mewn perthynas â'r amrywiaeth os:

- caiff yr holl gyfranddaliadau o'r un dosbarth eu cyfyngu yn yr un modd
- mae'r mwyafrif o'r cyfranddaliadau'n cael eu dal gan bobl heblaw am gyflogeion neu gyfarwyddwyr,
- mae cyflogeion neu gyfarwyddwyr yn rheoli'r cwmni drwy rinwedd eu daliadau o'r dosbarth yna o gyfranddaliadau, neu
- mae'r cwmni yn is-gwmni a dim ond un dosbarth o gyfranddaliadau sydd ganddo.

| 3b.01 | 3b.02 | 3b.03 | 3b.04 | 3b.05 | 3b.06 | 3b.07 | 3b.08 | 3b.09 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Enw'r cyflogai | Rhif Yswiriant Gwladol | Cyflogwr | Cyfeirnod TWE | Dyddiad y caffaelwyd y gwarantau | Dyddiad yr amrywiad | Cyfanswm gwerth y farchnad y cyfranddaliadau yn syth cyn amrywio | Cyfanswm gwerth marchnad y cyfranddaliadau yn syth ar ôl amrywio | Nifer o gyfranddaliadau |
| | | | | | | | | |

## 3c Trosi gwarantau ar neu ar ôl 6 Ebrill 2013

Rhaid i chi lenwi'r adran hon os yw cyflogai wedi caffael gwarantau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth sydd â hawl yn syth neu hawl dichonadwy i gael eu trosi i warantau o ddisgrifiad gwahanol ac mae digwyddiad trethadwy yn digwydd ar neu ar ôl 6 Ebrill 2013.

Peidiwch â llenwi'r adran hon os:

- yw'r holl gyfranddaliadau o'r un dosbarth yn warantau i'w trosi
- yw'r holl gyfranddaliadau o'r un dosbarth yn cael eu heffeithio gan ddigwyddiad sy'n debyg i'r digwyddiad trethadwy, a naill ai yn syth cyn y digwyddiad trethadwy
  - mae cyflogeion yn dal y mwyafrif o gyfranddaliadau'r cwmni yn y dosbarth hwnnw ac o ganlyniad gallant reoli'r cwmni, neu
  - nid yw cwmnïau cysylltiedig, cyflogeion a'u perthnasau'n dal y mwyafrif o gyfranddaliadau'r cwmni sydd o'r un dosbarth â'r cyfranddaliadau hynny sydd wedi'u caffael
- nid osgoi treth a CYG oedd prif ddiben, nac un o brif ddibenion, y trefniadau yr oedd yr hawl neu'r cyfle i gaffael y gwarantau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth ar gael oddi tanynt

### 3c.09 Digwyddiadau trethadwy yw (nodwch a, b, c neu d)

**a** trosi gwarantau i warantau o ddisgrifiad gwahanol
**b** gwaredu'r gwarantau tra bod ganddynt yr hawl i drosi
**c** rhyddhau'r hawl i drosi
**d** derbyn yr arian neu werth yr arian mewn cysylltiad â'r hawl i drosi.

### 3c .11 Y swm trethadwy yw

**AG llai CE, pan fo**

**AG** yw swm unrhyw ennill a wnaed ar achlysur y digwyddiad trethadwy, ac
**CE** yw swm unrhyw ystyriaeth a roddir ar gyfer yr hawl i drosi'r gwarantau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth y mae ganddynt fuddiant, ynghyd â swm unrhyw dreuliau a godir gan ddaliwr y gwarantau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth mewn perthynas â'r trosi, gwaredu, rhyddhau neu dderbyn.

### Colofn 3c.12

Codir treth pan gynhelir digwyddiad trethadwy (gweler y nodyn uchod). Nodwch 'Ydy' os yw TWE wedi cael ei roi ar waith, nodwch 'Nac ydy' os **nad** yw TWE wedi cael ei roi ar waith.

### Colofnau 3c.13 i 3c.16

Dim ond pan fo dewis neu gytundeb CYG wedi'i drefnu ar gyfer y cyflogai i fodloni ychydig neu holl rwymedigaethau CYG y cyflogwr (gweler nodyn 2 ar dudalen 3) y mae angen cofnod yn y colofnau hyn.

| 3c.01 | 3c.02 | 3c.03 | 3c.04 | 3c.05 | 3c.06 | 3c.07 | 3c.08 | 3c.09 | 3c.10 | 3c.11 | 3c.12 | 3c.13 | 3c.14 | 3c.15 | 3c.16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Enw'r cyflogai | Rhif Yswiriant Gwladol | Cyflogwr | Cyfeirnod TWE | Disgrifiad y gwarantau | Dyddiad y caffaelwyd y gwarantau yn wreiddiol | Nifer o warantau | Dyddiad y digwyddiad trethadwy | Natur y digwyddiad trethadwy gweler y nodyn uchod | Natur y gostyngiad artiffisial (gweler nodyn ar gyfer 2a.09 ar dudalen 7) | Cyfanswm trethadwy (gweler y nodyn uchod) | A yw TWE/CYG wedi cael ei roi ar waith? (Ydy/Nac ydy)? | Dewis CYG (swm a dalwyd) | Cytundeb CYG (swm a dalwyd) | Dyddiad y talwyd CYG gan y cyflogai | Dyddiad y talwyd CYG i CThEM |
| | | | | | | | | | | | | | | | |



## 3d. Clirio benthyciadau tybiannol

Rhaid i chi lenwi'r adran hon pan gaffaelwyd y gwarantau ar neu ar ôl 16 Ebrill 2003, a chaiff benthyciad tybiannol (gweler adran 1b) ei drin fel ei fod wedi'i glirio (gan greu swm trethadwy) pan gaiff gwarantau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth eu gwaredu heblaw i berson cysylltiedig neu caiff rhwymedigaeth sy'n ddyledus ei rhyddhau er mwyn talu am y gwarantau.

Codir treth pan gaiff benthyciad tybiannol ei glirio (gweler y nodyn uchod). Nodwch 'Ydy' os yw TWE wedi cael ei roi ar waith, nodwch 'Nac ydy' os **nad** yw TWE wedi cael ei roi ar waith.

| 3d.01 | 3d.02 | 3d.03 | 3d.04 | 3d.05 | 3d.06 | 3d.07 | 3d.08 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Enw'r cyflogai | Rhif Yswiriant Gwladol | Cyflogwr | Cyfeirnod TWE | Nifer o warantau | Clirio diddymu | Swm y benthyciad tybiannol sy'n ddyledus yn syth cyn clirio | A yw TWE/CYG wedi cael ei roi ar waith? (Ydy/Nac ydy)? |
| | | | | | | | |

## 3e Derbyn buddiannau eraill o warantau

Rhaid i chi lenwi'r adran hon os derbyniodd cyflogai, neu berson sy'n gysylltiedig â chyflogai, buddiant ar neu ar ôl 6 Ebrill 2013, na fyddai fel arall yn agored i Dreth Incwm, mewn perthynas â gwarantau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth. Nid yw'r eithriad 'na fyddai fel arall yn drethadwy' yn gymwys mewn achosion sy'n cynnwys treth neu gyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Os yw'r cyfranddaliadau a gaffaelir yn gwmni deillio, nodwch 'rhyddhad deillio' yng ngholofn 3e.09 a gadewch y colofnau eraill yn wag.

### Colofn 3e.12

Codir treth pan ddarperir buddiant (gweler y nodyn uchod). Nodwch 'Ydy' os yw TWE wedi cael ei roi ar waith, nodwch 'Nac ydy' os **nad** yw TWE wedi cael ei roi ar waith.

| 3e.01 | 3e.02 | 3e.03 | 3e.04 | 3e.05 | 3e.06 | 3e.07 | 3e.08 | 3e.09 | 3e.10 | 3e.11 | 3e.12 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Enw'r cyflogai | Rhif Yswiriant Gwladol | Cyflogwr | Cyfeirnod TWE | Disgrifiad y gwarantau | Dyddiad y caffaelwyd y gwarantau | Nifer o warantau | Dyddiad derbyn y buddiant | Natur y buddiant a dderbyniwyd | Swm neu werth marchnad y buddiant | Natur y gostyngiad artiffisial (gweler y nodyn ar gyfer 2a.09 ar dudalen 7) | A yw TWE/CYG wedi cael ei roi ar waith? (Ydy/Nac ydy)? |
| | | | | | | | | | | | |

## 3f Gwaredu gwarantau am fwy na'u pris marchnad

Rhaid i chi lenwi'r adran hon os yw'r cyflogai, neu berson sydd yn gysylltiedig â'r cyflogai, wedi gwaredu gwarantau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2013 am fwy na'u gwerth marchnad, ar adeg y gwaredu. Yn yr achos hwn, y gydnabyddiaeth a dderbynnir ar waredu'r gwarantau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth, llai eu gwerth marchnad a'r treuliau yr aed iddynt ar adeg y gwaredu, yw incwm cyflogaeth y cyflogai.

### Colofn 3f.12

Codir treth pan gaiff gwarantau eu gwaredu am fwy na'u pris marchnad (gweler y nodyn uchod). Nodwch 'Ydy' os yw TWE wedi cael ei roi ar waith, nodwch 'Nac ydy' os **nad** yw TWE wedi cael ei roi ar waith.

| 3f.01 | 3f.02 | 3f.03 | 3f.04 | 3f.05 | 3f.06 | 3f.07 | 3f.08 | 3f.09 | 3f.10 | 3f.11 | 3f.12 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Enw'r cyflogai | Rhif Yswiriant Gwladol | Cyflogwr | Cyfeirnod TWE | Disgrifiad y gwarantau | Nifer o warantau | Dyddiad gwaredu | Ystyriaeth a dderbyniwyd wrth waredu | Cyfanswm gwerth marchnad y gwarantau ar waredu (gweler nodyn 6 ar dudalen 3) | Natur y gostyngiad artiffisial (gweler y nodyn ar gyfer 2a.09 ar dudalen 7) | Treuliau sy'n codi wrth waredu | A yw TWE/CYG wedi cael ei roi ar waith? (Ydy/Nac ydy)? |
| | | | | | | | | | | | |

## 3g Gwelliant artiffisial y gwerth marchnad

Rhaid i chi lenwi'r adran hon os yw gwerth marchnad gwarantau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth cyflogai yn cynyddu gan fwy na 10% mewn cyfnod perthnasol drwy weithredoedd nad ydynt yn fasnachol (gweler nodyn 5 ar dudalen 3) ac mae dyddiad y digwyddiad trethadwy ar neu ar ôl 6 Ebrill 2013, waeth pryd y caffaelwyd y gwarantau.

Mae'r cyfnod perthnasol yn rhedeg o'r dyddiad y caffaelwyd gwarantau i'r cynharaf o'r dyddiad gwaredu neu 5 Ebrill 2014. Dyddiad y digwyddiad trethadwy fydd 5 Ebrill 2014 neu'r dyddiad y gwaredwyd y gwarantau os yn gynharach.

**Adrannau 3g.09 a 3g.10 Gwerth cyfyngedig y farchnad (UMV)**

Dyma werth marchnad y gwarantau, yn anwybyddu effaith y cyfyngiadau, unrhyw ostyngiad artiffisial, neu, mewn perthynas â gwarantau i'w trosi, y gwerth marchnad ac eithrio'r hawl i drosi.

**Colofn 3g.11**

Codir treth pan gynhelir digwyddiad trethadwy (gweler y nodyn uchod). Nodwch 'Ydy' os yw TWE wedi cael ei roi ar waith, nodwch 'Nac ydy' os **nad** yw TWE wedi cael ei roi ar waith.

| 3g.01 | 3g.02 | 3g.03 | 3g.04 | 3g.05 | 3g.06 | 3g.07 | 3g.08 | 3g.09 | 3g.10 | 3g.11 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Enw'r cyflogai | Rhif Yswiriant Gwladol | Cyflogwr | Cyfeirnod TWE | Disgrifiad o'r gwarantau a gaffaelwyd yn wreiddiol | Dyddiad y caffaeliad gwreiddiol | Nifer o warantau | Dyddiad y digwyddiad trethadwy | Cyfanswm yr **UMV** ar 5 Ebrill 2014 neu, os yn gynt, y dyddiad gwaredu (gweler y nodyn uchod) | Cyfanswm yr **UMV**, yn anwybyddu effaith y cynnydd artiffisial ar ddyddiad y digwyddiad trethadwy (gweler y nodyn uchod) | A yw TWE/CYG wedi cael ei roi ar waith? (Ydy/Nac ydy)? |
| | | | | | | | | | | |



# Adran 4 Cwmnïau sy'n cymryd rhan

Os dim ond un cwmni sy'n anfon gwarantau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth i'w gyflogeion, nid oes angen cwblhau'r adran hon. Fodd bynnag, os cwblheir y ffurflen hon i gwmpasu grŵp o gwmnïau neu sefydliadau, nodwch isod manylion y cwmnïau y mae'r ffurflen dreth yn berthnasol iddynt.

| 4.01 | 4.02 | 4.03 | 4.04 |
|---|---|---|---|
| Cyfeirnod TWE | Cyfeirnod Treth Gorfforaeth | Rhif Cofrestru'r Cwmni | Cyfeirnod ESSU (os oes un) |
| | | | |

## Adran 5 Dim i'w ddatgan

Os oedd y cynllun wedi'i gofrestru gyda'r ESSU ac nid oes digwyddiad i'w nodi yn ystod y flwyddyn dreth, nodwch 1 yn y blwch. ☐

## Adran 6 Gwybodaeth ychwanegol

## Datganiad

Yn unol â'r Ddeddf Trethi dylai Ysgrifennydd y Cwmni neu'r person sy'n gweithredu fel Ysgrifennydd y Cwmni gwblhau'r datganiad. Os oes datodwr wedi'i benodi dylai ef/hi gwblhau'r datganiad (S108(1) a (3) TMA 1970).

Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred mae'r wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen dreth hon (ac ar unrhyw daflenni atodol) yn gywir ac yn gyflawn.

Enw (defnyddiwch briflythrennau)

Swydd yn y busnes

Enw'r cwmni

Ffôn

E-bost

Llofnod

Dyddiad DD MM BBBB